# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 27 Awst 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymgysylltiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ag undebau myfyrwyr yng Nghymru? (WAQ52421)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Rwyf yn cyfarfod â chynrychiolwyr Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, sy'n cynrychioli undebau myfyrwyr yng Nghymru, yn rheolaidd. Cynhelir fy nghyfarfod nesaf â hwy ar 27 Awst.

Mae Llywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru hefyd yn aelod o'r Grŵp Adolygu AU. Mae hyn yn golygu bod myfyrwyr yn gallu dylanwadu ar y trefniadau ariannol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn y dyfodol, ei rôl a'r modd y'i cyflwynir. Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn adolygu polisïau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer addysg uwch er mwyn rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar weledigaeth a strategaeth newydd, a fydd yn galluogi darpariaeth addysg uwch yng Nghymru—gan gynnwys ei waith ymchwil—i ddiwallu anghenion economi gystadleuol fyd-eang fodern sy'n seiliedig ar wybodaeth a chymdeithas gynhwysol.

Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan mewn prosesau polisi lle bynnag y bo modd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu adolygu ac ymgynghori ar ddull gweithredu newydd ar gyfer datrys anghydfodau ac achosion sy'n ymwneud â Chartrefi mewn Parciau dan Ddeddf Cartrefi Symudol 1983? (WAQ52413)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cynnal ymgynghoriad ar y cyd: 'A new approach for resolving disputes and to proceedings relating to Park Homes under the Mobile Homes Act 1983 (as amended)'. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau oedd 22 Awst ac ystyrir y rhain wrth benderfynu ar y ffordd ymlaen.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa astudiaethau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am lefel y sŵn a gynhyrchir gan dyrbinau gwynt a'i effaith ar drigolion lleol. (WAQ52427)

**Jane Davidson:** Cynhaliwyd astudiaethau o'r mater hwn gan Lywodraeth y DU. Ym mis Awst 2007, daeth astudiaeth fwyaf cynhwysfawr y DU o'r sŵn a grëir gan ffermydd gwynt i'r casgliad, er gwaethaf dadleuon i'r gwrthwyneb, bod nifer y cwynion a wneir ynghylch sŵn yn fach. Ymchwiliodd ymchwilwyr acwsteg ym Mhrifysgol Salford i gwynion ynghylch y sŵn a grëir gan fodyliad erodynamig—ffenomenon a gymherir weithiau â sŵn trên yn y pellter. Canfuwyd bod nifer y cwynion ynghylch sŵn a grëir gan dyrbinau gwynt yn gymharol fach o gymharu â chwynion ynghylch ffynonellau sŵn eraill. Canfu'r astudiaeth i 239 o gwynion ffurfiol gael eu gwneud ynghylch tyrbinau gwynt dros gyfnod o 15 mlynedd yn y DU gyfan. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd cenedlaethol o fwy na 300,000 o gwynion fesul blwyddyn ynghylch sŵn yn gyffredinol.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Brifysgol, nid yw'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR) o'r farn bod y mater hwn yn broblem i fflyd y DU o ffermydd gwynt, ac nid yw o'r farn bod achos cymhellol dros wneud rhagor o waith ar fodyliad erodynamig ar hyn o bryd.

Dilynodd adroddiad Prifysgol Salford astudiaeth arall a gwblhawyd yn 2006, a gomisiynwyd hefyd gan yr Adran Masnach a Diwydiant (BERR bellach), a elwir yn adroddiad Hayes McKenzie. Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth o effeithiau ar iechyd yn deillio o sŵn amledd isel nac is-sŵn a grëir gan dyrbinau gwynt.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau lleol ynghylch y sŵn a gynhyrchir gan dyrbinau gwynt wrth ddelio â cheisiadau cynllunio? (WAQ52428)

**Jane Davidson:** Mae canllawiau yn Atodiad D i nodyn cyngor technegol 8, 'Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy', yn awgrymu, wrth fireinio ffiniau'r Ardaloedd Chwilio Strategol, y dylai awdurdodau cynllunio lleol sefydlu clustogfa o 500m o amgylch tyrbinau gwynt. Y rheswm dros hyn yw yr ystyrir 500m ar hyn o bryd yn bellter gwahanu nodweddiadol rhwng tyrbinau gwynt ac eiddo preswyl i osgoi effeithiau sŵn annerbyniol. Fodd bynnag, am fod amgylchiadau lleol, megis topograffi, cyfeiriad y gwynt a chyflymderau gwynt yn amrywio, mae'r nodyn cyngor technegol yn cydnabod y dylid caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd wrth weithredu'r canllawiau hyn.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i annog sefydlu gweithgynhyrchwyr tyrbinau gwynt yng Nghymru? (WAQ52430)

**Jane Davidson:** Yn aml y ffordd fwyaf effeithiol i'r Llywodraeth ddylanwadu ar farchnadoedd a byd busnes yw drwy bolisïau cadarn, clir megis nodyn cyngor technegol 8 a gyhoeddwyd yn 2005. Nododd TAN 8 dargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru o sicrhau bod 4TWh o drydan y flwyddyn yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru o ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020. Er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r targedau hyn gan sicrhau'r effaith leiaf bosibl ar yr amgylchedd, cymerodd TAN 8 y cam unigryw o nodi saith ardal strategol yng Nghymru a allai gynnwys datblygiadau ffermydd gwynt ar raddfa fawr. Mae'r rhain yn tanlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy wneud defnydd helaethach o ynni adnewyddadwy a hefyd drwy greu cyfleoedd sy'n denu'r diwydiant cadwyni cyflenwi ffermydd gwynt i Gymru.

Yn anffodus, ni ellir gwireddu'r nod o weithgynhyrchu generaduron tyrbinau gwynt yng Nghymru, ac eithrio'r rhai sy'n gysylltiedig â mircogynhyrchu yn y tymor byr i ganolig am fod cyflenwi tyrbinau gwynt bellach yn ddiwydiant arbenigol, tra chyfunol a ategir gan fuddsoddiadau cyfalaf mawr iawn mewn cyfleusterau gweithgynhyrchu a chyfleusterau cysylltiedig. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfleoedd i gyflenwyr yng Nghymru gymryd rhan mewn cadwyni cyflenwi generaduron tyrbinau gwynt. I'r diben hwn, mae EnergyNet Cymru ar fin ymgymryd â dadansoddiad o'r bylchau mewn cadwyni cyflenwi sy'n datblygu a chyhoeddi ei ganfyddiadau.

Sefydlwyd rhaglen EnergyNet Cymru yn 2007, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i Gymru o'r sector ynni, gan gynnwys cyfleoedd i gymryd rhan fel partneriaid cadwyni cyflenwi yn y gwaith o leoli, gweithredu a chynnal a chadw generaduron tyrbinau gwynt. At hynny, mae EnergyNet Cymru yn ceisio cynorthwyo busnesau yng Nghymru sydd am weithgynhyrchu cydrannau, is-systemau a chydosodiadau tyrbinau gwynt.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gam diweddaraf y trafodaethau cyllido ar gyfer Radio BRO, gorsaf radio gymunedol ar gyfer y Barri a Bro Morgannwg. (WAQ52429)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Gwneir cyhoeddiad ynghylch dyfarnu arian o gronfa radio cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fuan.